Er Lledaeniad yn Nghymru

YMWELIAD Y DDIRPRWYAETH AMAETHYDDOL A CANADA YN 1890.

# ADRODDIAD

MR. WM. EDWARDS, RHUTHYN, CYMRU,

AR

# ADNODDAU AMAETHYDDOL CANADA.

CYHOEDDEDIG DRWY AWDURDOD LLYWODRAETH CANADA (ADRAN AMAETHYDDOL).

1891.

TURNER & DUNNETT, Argraphwyr, Fenwick Street, Lerpwl.


Map of Part of the Dominion of Canada
DOMINION OF CANADA
BRITISH COLUMBIA
ALBERTA
SASKATCHEWAN
ASSINIBOIA
MANITOBA
KEEWATIN
ONTARIO
QUEBEC
NEW BRUNSWICK
NOVA SCOTIA
NEWFOUNDLAND
GULF OF ST. LAWRENCE
WASHINGTON
IDAHO
MONTANA
DAKOTA
MINNESOTA
WISCONSIN
MICHIGAN
IOWA
ILLINOIS
NEW YORK
VERMONT
NEW HAMPSHIRE
PACIFIC OCEAN
CANADIAN PACIFIC RAILWAY
Victoria
Vancouver
Winnipeg
Prince Albert
Battleford
Edmonton
International Boundary
Duluth
Minneapolis
St. Paul
Chicago
Detroit
Toronto
Buffalo
Ottawa
Montreal
Quebec
Portland
Boston
New York
Philadelphia
Baltimore
Halifax
Mansfield
LAKE SUPERIOR
LAKE MICHIGAN
LAKE HURON
LAKE ERIE
LAKE ONTARIO
PORTLAND TO LIVERPOOL
BOSTON TO LIVERPOOL
NEW YORK TO LIVERPOOL
PHILADELPHIA TO LIVERPOOL
BALTIMORE TO LIVERPOOL
AUSTRALIA TO VANCOUVER
ASIA
NORTH AMERICA
CANADA
UNITED STATES
EUROPE
AFRICA
SOUTH AMERICA
PACIFIC OCEAN
ATLANTIC OCEAN
INDIAN OCEAN
CAN. PAC. R'Y
VANCOUVER TO YOKOHAMA 4374 MILES
EQUATOR
TABLE OF DISTANCES.
Liverpool to Quebec - - - 2,706 miles (Geog.)
Quebec " Vancouver - - - 3,047 miles (Stat.)
Liverpool " Halifax - - - 2,463 " (Geog.)
Halifax " Vancouver (via short line) - - - 3,595 " (Stat.)
Vancouver to Hong Kong - - 5,936 " (Geog.)
" " Yokohama - - 4,374 " "
" " Sandwich Islands - 2,400 " "
" " Feejee Islands - 5,100 " "
" " Auckland - - 6,934 " "
" " Sydney - - 7,434 " "
Liverpool to Hong Kong (via Quebec) - 11,69? miles.
" " Auckland " " - 12,689 "
" " Sydney " " - 12,189 "
" " Hong Kong (via Halifax) - 11,994 "
" " Auckland (New Zealand) - 12,992 "
" " Sydney (Australia) - 13,492 "
Liverpool to Hong Kong (via New York and San Francisco) - - - 12,879 "
DIFFERENCE IN FAVOR CANADIAN ROUTE - - - - - 1,188 "
MORTIMER & CO., MAP ENGRAVERS, OTTAWA, CANADA.

YMWELIAD Y DDIRPRWYAETH AMAETHYDDOL
A CANADA YN 1890.

---

# ADRODDIAD

MR. WM. EDWARDS, RHUTHYN, CYMRU,

AR

# ADNODDAU AMAETHYDDOL CANADA.

---

CYHOEDDEDIG DRWY AWDURDOD LLYWODRAETH CANADA
(ADRAN AMAETHYDDOL).

1891.



Golygfa ar Amaethdy yn Manitoba.—Stock Fferm Beresford.

# RHAGYMADRODD.

Yn mis Awst diweddaf, fe wahoddodd Uchel Ddirprwywr Canada, trwy gyfarwyddyd Gweinidog Amaethyddiaeth, y boneddigion canlynol, y rhai ydynt oll yn dal cysylltiad ag amaethyddiaeth yn ngwahanol ranau y Deyrnas Gyfunol lle y preswyliant, i ymweled a Thalaeth Canada, er gwneud Adroddiad am ei hadnoddau amaethyddol, a'r manteision sydd ynddi ar gyfer amaethwyr a llafurwyr amaethyddol, ynghyda dosbarthiadau ereill ag y mae galwad am danynt, sef Mr. George Brown, Watten Mains, Caithness, Scotland; Mr. Arthur Daniel, 172, Dereham Road, Norwich, Norfolk; Mr. Wm. Edwards, Rhuthyn, Cymru; Milwriad Francis Fane, Fulbeck Hall, Grantham, Lincolnshire; Mr. G. Hutchinson, Brougham Castle, Penrith, Cumberland; Mr. E. R. Murphy, The Kerries, Tralee, Iwerddon; Mr. Robert Pitt, Crickett Court, Ilminster, Somerset; Mr. Wm. Scotson, Rose Lane, Mossley Hill, Liverpool; Mr. H. Simmons, Bearwood Farm, Wokingham; Mr. John Speir, Newton Farm, Newton, Glasgow, Ysgotland; Major Stevenson, Knockbrack, Goshaden, Londonderry, Iwerddon; Mr. J. T. Wood, The Court, Halewood, ger Liverpool.

Pe cyd-argreffid yr Adroddiadau gwnelent gyfrol drwchus, penderfynwyd, gan hyny, eu dosbarthu fel y canlyn:—

Rhan I., a gynwysa Adroddiadau Meistri. Hutchinson, Scotson, Wood, ac Edwards;

Rhan II., Adroddiadau Meistri. Daniel, Fane, Pitt, a Simmons;

Rhan III., Adroddiad Mr. Edwards, o Gymru, yn Gymraeg;

Rhan IV., Adroddiadau Meistri. Brown a Speir, o Ysgotland; a

Rhan V., Adroddiadau Meistri. Murphy a Stevenson, o'r Iwerddon.

Gall y neb a ddewiso gael pob un o'r cyfrolau hyn yn rhad ond anfon at Sir Charles Tupper, Bart., G.C.M.G., C.B., High Commissioner for Canada, 17, Victoria Street, London, S.W., neu ynte at unrhyw un o'r rhai canlynol, y rhai ydynt Oruchwylwyr Llywodraeth Canada yn y wlad hon :—Mr. John Dyke, 15, Water Street, Liverpool; Mr. Thomas Grahame, 40, St. Enoch Square, Glasgow; Mr. John W. Down, Bath Bridge, Bristol; Mr. H. Merrick, Victoria Chambers, Victoria Street, Belfast; Mr. T. Connolly, Northumberland House, Dublin. Gellir eu cael hefyd gan y goruchwylwyr ymfudol y rhai a geir yn mhob tref.

Bydd yn dda gan Oruchwylwyr y Llywodraeth roddi unrhyw hysbysrwydd a ddymunir mewn perthynas i fasnach ac adnoddau Canada; a byddai yn dda i bwy bynag a fwriada ymsefydlu yn y wlad hono wneud ymholiad yn y lle cyntaf gyda rhyw un o'r Goruchwylwyr hyn.

Yn ychwanegol at yr Adroddiadau hyn, ceir hefyd yn rhad lawlyfr swyddogol wedi ei ddwyn allan gan Lywodraeth Canada a'i gymeradwyo gan Lywodraeth y wlad hon, ond anfon am dano at un o'r Goruchwylwyr.

Cynwysa fanylion gwybodaeth am y wlad, ei masnach a'i hadnoddau; y dosbarthiadau ag y mae galw am danynt ac y gwahoddir hwynt i ymsefydlu yno; prisiau ymborth ac angenrheidiau ereill; y cyflogau a delir; ynghyda desgrifiad manylach o'r gwahanol randiroedd nag a ellir ei roddi yn Adroddiadau Dirprwyaeth yr Amaethwyr. Oherwydd byrdra amser nis gallodd ond y Dirprwywyr o'r Iwerddon ymweled â rhandiroedd Glanau y Môr; ond ceir pob hysbysrwydd mewn perthynas iddynt yn y llawlyfr a nodwyd ac mewn llyfrau ereill.

Yn Canada y mae gan y Llywodraeth Oruchwylwyr yn mhrif ranau y wlad. Dyma restr ohonynt. :—

QUEBEC ..................Mr. L. Stafford, Louise Embankment, and Point Levis, Quebec.
TORONTO ................Mr. J. A. Donaldson, Strachan Avenue, Toronto, Ontario.
OTTAWA...................Mr. W. J. Wills, Wellington Street, Ottawa, Ontario.
MONTREAL..............Mr. J. J. Daley, Commissioner's Street, Montreal, Province of Quebec.
SHERBROOKE ..........Mr. Henry A. Elkins, Sherbrooke, Province of Quebec.
KINGSTON ...............Mr. R. Macpherson, William Street, Kingston, Ontario.
HAMILTON...............Mr. John Smith, Great Western R'y. Station, Hamilton, Ont.
LONDON ..................Mr. A. G. Smyth, London, Ontario.
HALIFAX...................Mr. E. M. Clay, Halifax, Nova Scotia.
ST. JOHN .................Mr. S. Gardner, St. John, New Brunswick.
WINNIPEG................Mr. Thomas Bennett, Winnipeg, Manitoba.
.................................Mr. J. E. Tetu, St. Boniface, Manitoba.
BRANDON ................Mr. A. J. Baker, Office at the Railway Station.
REGINA ....................Mr. J. T. Stemshorn.
CALGARY .................Mr. F. Z. C. Miquelon.
PORT ARTHUR.........Mr. J. M. McGovern.
VICTORIA, B.C..........Mr. John Jessop.
VANCOUVER, B.C....Mr. Morrison Sutherland.

Rhydd y swyddogion hyn bob cyfarwyddyd ac amddiffyniad angenrheidiol. Dylid ymofyn â hwynt yn ebrwydd wedi cyrhaedd. Dylai pob cwynion gael eu gosod ger eu bron. Ceir ganddynt hefyd pob hysbysrwydd am y tiroedd sydd i'w gosod yn eu gwahanol ardaloedd, y ffermydd sydd ar werth, yr alwad am weithwyr, y cyflogau, y modd i deithio, y pellderau, costau cludiad, a phob peth arall o bwys i ymfudwyr. Derbyniant ac anfonant eu llythyrau a'u harian drostynt.

A ganlyn ydynt y trefniadau yn nglyn a'r tir yn ngwahanol randiroedd y Dalaeth :—

*Prince Edward Island.*—Cyfrifir fod y tir sydd gan y Llywodraeth yn y rhandir hwn ar osod tua 45,000 o aceri. Mae y rhai hyn yn gynwysedig o diroedd coediog canolig, gan fod y tiroedd goreu wedi eu cymeryd gan denantiad blaenorol, a'u pris yw tua doler yr acer. Caniateir i'r neb a ewyllysio ymsefydlu arnynt ddeng mlynedd i dalu am yr hyn a brynant, arian y pryniant i ddwyn llôg o bum punt y cant ac i'w haddalu mewn deg o daliadau blynyddol.

*Nova Scotia.*—Y mae yn awr yn Nova Scotia tua dwy filiwn o aceri o dir y Llywodraeth heb ei werthu. Y mae rhan fawr ohono yn llwm ac anghymwys i driniaeth, ond y mae rhai llanerchi o 200 i 500 o aceri yr un o diroedd gwir werthfawr, a pheth ohonynt y goreu yn y dalaeth, ac yn hawdd ei gyrhaedd gan ei fod yn ymyl sefydliadau ereill. Pris tiroedd y Goron yw tua 40 doler (£8) y 100 erw.

*New Brunswick.*—Gellir cael tiroedd y Goron fel y canlyn:—(1.) Darnau o 100 erw yn rhad i ymfudwyr dros 18 mlwydd oed, ar yr amod iddynt wario ar y tir £4 o fewn tri mis, adeiladu ty 16 troedfedd wrth 20 troedfedd, a diwyllio dwy erw o fewn un flwyddyn, a pharhau i fyw ar y lle a diwyllio 10 erw o fewn tair blynedd. (2.) Rhoddir

can erw i unrhyw sefydlydd dros 18 mlwydd oed yr hwn a dalo £4 mewn arian, neu a wnelo waith ar y ffyrdd cyhoeddus, &c., gwerth £2 y flwyddyn am dair blynedd. O fewn dwy flynedd rhaid codi ty 16 troedfedd wrth 20 troedfedd, a chlirio dwy erw o'r tir. Rhaid hefyd barhau i fyw ar y lle am dair blynedd a diwyllio 10 erw o'r tir yn ystod yr un cyfnod. (3.) Gall personau unigol wneud ceisiadau am ddim mwy na 200 erw o diroedd y Goron heb amodau sefydliad. Gwneir arwerthiant cyhoeddus o'r rhai hyn am 4s. 2c. yr erw ; yr arian i'w talu ar unwaith, a chost y mesuriad i'w thalu gan y prynwr.

*Quebec.*—Rhaid talu fel y canlyn am diroedd a brynir gan y Llywodraeth :—Un ran o bump o'r arian pryniant i'w talu wrth brynu, a'r gweddill yn chwe thaliad blynyddol, a than lôg o 6 y cant. Gwerthir y tiroedd am o 20 cent i 60 cent yr erw (o 15c. i 2s. 5½c.). Rhaid i'r prynwr gymeryd meddiant o'r tir o fewn chwe mis i ddydd y pryniant, a byw arno o fewn dwy flynedd. Rhaid iddo yn nghorff deng mlynedd glirio deng erw o bob cant a ddelir ganddo, a chodi ty cymhwys i fyw ynddo, yn mesur o leiaf 16 troedfedd wrth 20 troedfedd. Ni chodir tal am y breint-lythyrau. Y rhanau hyny o Quebec ag y byddai yn ddymunol ymfudo iddynt yw ardal Lake St. John ; dyffrynoedd Saguenay, St. Maurice, ac Ottawa ; y Trefgorddau (*Townships*) Dwyreiniol ; y St. Lawrence Isaf, a Gaspé.

*Ontario.*—Gall unrhyw benteulu, gwrryw neu fenyw, gyda phlant dan 18 mlwydd oed, gael rhodd o 200 erw ; a gall dyn dibriod dros 18 mlwydd oed, neu wr priod heb ddim plant dan 18 mlwydd oed yn byw gydag ef, gael rhodd o 100 erw. Mae y tir hwn, gan mwyaf, wedi ei orchuddio gan goed, ac i'w gael yn rhanau gogleddol a gogledd-orllewinol y Dalaeth. Gall y cyfryw berson hefyd brynu 100 erw yn ychwanegol am tua haner doler yr erw. Yr amodau sefydlu ydynt—bod 15 erw ar bob rhodd wedi eu clirio a than gnwd ar ddiwedd y pum mlynedd cyntaf, a hyn yn ol o leiaf 2 erw bob blwyddyn ; codi ty cymhwys i fyw ynddo, a'i faint o leiaf yn 16 troedfedd wrth 20 troedfedd ; a byw ar y tir o leiaf chwe mis yn mhob blwyddyn. Yn rhandir y Rainy River, i'r gorllewin o Lyn Superior, rhoddir yn rhad, o dir heb ei glirio ond wedi ei ddyfrhau yn dda, ddarnau o 160 erw i benteulu gyda phlant dan 18 oed yn byw gydag ef (neu hi) ; a 120 erw i ddyn dibriod dros 18 oed, neu i wr priod heb ddim plant dan 18 oed yn byw gydag ef ; a bydd pob un a dderbynio rodd yn meddu hawl i brynu 40 erw yn ychwanegol, yn ol doler yr erw, yr arian i'w talu ar bedwar tro.

*Manitoba a'r Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol.*—Gellir cael rhoddion o 160 erw o dir amaethyddol mesuredig, gan unrhyw berson fyddo yn unig ben teulu, neu gan unrhyw wryw o 18 mlwydd oed, ond gwneud cais am danynt at oruchwylwyr lleol tiroedd y dalaeth a thalu yn y swyddfa ddeg dolar. Rhaid i'r sefydlydd wrth wneud y pryniant fynegi dan ba un o'r telerau canlynol y dewisa ddal y tir, ac wrth ymofyn am ei freint-lythyrau, rhaid iddo brofi ei fod wedi cyflawni yr amodau a nodir ynddynt :—

1. Trwy ymgofrestru fel prynwr, ac o fewn chwe mis wedi hyny godi ty a dechreu preswylio ar y tir, a pharhau i breswylio arno am o leiaf chwe mis yn y flwyddyn am y tair blynedd canlynol, gan wneuthur yr hyn a fyddo resymol er diwyllio y tir yn y cyfamser. 2. Trwy ymgofrestru fel prynwr, diwyllio y tir am dair blynedd yn olynol fel na byddo ar derfyn y cyfnod hwnw ddim llai na 40 erw wedi eu diwyllio ; byw am o leiaf chwe mis yn mhob blwyddyn o fewn dwy filldir i'r lle, a chodi ty ar y lle a byw ynddo am dri mis cyn ymofyn am y breint-lythyrau. 3. Trwy ymgofrestru fel prynwr, ac o fewn chwe mis i hyny ddechreu diwyllio y tir ; gan barotoi i gnwd o fewn y flwyddyn gyntaf ddim llai na phum erw ; codi cnydau y pum erw, a pharotoi i gnwd ddim llai na 10 erw ereill, a chodi ty ar yr tir cyn terfyn yr ail flwyddyn ; ac wedi hyny byw yn y ty a thrin y tir am o leiaf chwe mis o bob un o'r tair blynedd cyn ymofyn am y breint-lythyrau.

Fe ganiateir i bersonau fyddont yn ymgofrestru am diroedd ar neu ar ol y 1af o Fedi yn mhob blwyddyn aros hyd y 1af o Fehefin heb berffeithio y cofrestriad trwy fyned i fyw ar y lle. Yr unig dâl am gartrefle o 160 erw yw y 10 dolar a godir wrth ymgofrestru. Mewn rhai amgylchiadau gellir cael tiroedd wedi eu rhoddi i fyny neu eu fforffedu, ond codir ychydig yn ychwaneg am y rhai hyn a bydd amodau y sefydliad yn wahanol. Rhoddir llawn hysbysrwydd gan y goruchwylwyr lleol. Os bydd prynwr yn dewis cael ei freint-lythyrau cyn pen y tair neu y pum mlynedd, caniateir iddo brynu ei gartrefle yn ol pris y Llywodraeth ar y pryd, ond iddo brofi ei fod wedi byw ar y tir am o leiaf 12 mis ar ol ymgofrestru am dano, ac wedi diwyllio 30 erw o hono.

Dengys yr eglurlun canlynol y modd y dosrenir y tir. Y mae yn gosod allan drefgordd *(township)*—hyny yw, llain o dir chwe milldir ysgwâr, yn cynwys 36 o adranau un filldir ysgwâr bob un. Mae yr adranau hyn wedi eu dosbarthu drachefn yn bedair is-adran of 160 erw yr un.

TOWNSHIP DIAGRAM.

640 Acres. N.

1 Mile Square.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 31 | 32 | 33 | 34 | 35 | 36 |
| 30 | School 29 Lands | 28 | 27 | H. B. 26 Lands | 25 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 18 | 17 | 16 | 15 | 14 | 13 |
| 7 | H. B. 8 Lands | 9 | 10 | School 11 Lands | 12 |
| 6 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |

W. E.

S.

Mae yr hawl i rag-bryniant wedi peidio a bod er Ionawr 1af, 1890.

Gellir cael hysbysrwydd yn nghylch coed, mwnau, glo, tiroedd porfa a gwair, gan y goruchwylwyr tirol. Fe dderbynia ymsefydlwyr, yn mlwyddyn gyntaf eu sefydliad, hawl i dori swm penodol o goed at eu pwrpas eu hunain yn unig am y swm o chwarter dolar.

Rhaid deall yn eglur fod y trefniadau tirol yn agored i gyfnewidiad a bryd i bryd. Dylai prynwyr pan yn ymgofrestru fynu gan y tir-oruchwyliwr eglurhad ar y trefniadau fyddont mewn grym ar y pryd, a chael yr adran o'r Ddeddf dan ba un y gwneir y cofrestriad wedi ei hysgrifenu ar gefn y ddangoseb *(receipt)* fel na byddo unrhyw amheuaeth neu anhawsder wedi hyny.

*Rhestr o'r Tir-oruchwylwyr yn Manitoba a'r Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol.*

| Enw y Goruchwyliwr. | Enw y Rhandir. | Yr Oruchwyliaeth. | Cartref y Goruchwyliwr. |
|---|---|---|---|
| A H. Whitcher ... | Winnipeg ... ... ... | Dominion Lands. | Winnipeg, Manitoba. |
| W. M. Hilliard ... | Little Saskatchewan... | | Minnedosa, ,, |
| W. G. Pentland ... | Birtle ... ... ... | | Birtle, ,, |
| W. H. Hiam ... ... | Souris ... ... ... ... | | Brandon, ,, |
| John Flesher ... ... | Turtle Mountain ... | | Deloraine, ,, |
| W. H Stevenson ... | Qu'Appelle... ... ... | | Regina, Assiniboia, N.W.T. |
| John McTaggart ... | Prince Albert ... .. | | Pr. Albert, Saskatchewan, ,, |
| C. E. Phipps ... ... | Coteau ... ... .. | | Cannington. Assiniboia. ,, |
| E. Brokovski ... ... | Battleford ... ... ... | | Battleford, Saskatchewan, ,, |
| Amos Rowe ... ... | Calgary ... ... ... | | Calgary, Alberta, ,, |
| P. V. Gauvreau ... | Edmonton ... ... ... | | Edmonton, ,, ,, |
| E. G. Kirby ... ... | Lethbridge ... ... | | Lethbridge, ,, ,, |
| T. B. Ferguson ... | Touchwood ... ... | | Saltcoats, Assiniboia, ,, |
| E. F. Stephenson ... | Winnipeg ... ... ... | Crown Timber. | Winnipeg, Manitoba. |
| Thos. Anderson ... | Edmonton ... ... .. | | Edmonton, Alberta, N.W.T. |
| C. L. Gouin ... ... | Calgary ... ... ... | | Calgary, Alberta, ,, |
| John McTaggart ... | Prince Albert ... ... | | Pr. Albert, Saskatchewan, ,, |

*British Columbia.*—Yn y dalaeth hon caiff unrhyw ddeiliad Prydeinig fyddo yn benteulu, yn wraig weddw, neu yn ddyn dibriod dros 18 mlwydd oed, trwy dalu 8s. 4c., hawl gan lywodraeth y dalaeth i ddim mwy na 320 erw o dir yn ngogledd a dwyrain y Cascades, a 160 erw yn rhywle arall. Y pris yw 4s. 2c. yr erw, i'w talu mewn pedair blynedd. Yr amodau ydynt—(1) Preswyliad personol yr ymsefydlydd, neu ei deulu, neu ei oruchwyliwr ; (2) gwelliantau cyfwerth a 10s. 6c. yr erw i w gwneuthur. Gellir hefyd brynu tiroedd—o 160 i 640 erw—am 10s. 6c. yr erw heb amodau preswyliad na gwelliantau.

Nid yw yr *Esquimalt and Nanaimo Railway Syndicate* eto wedi cwbl drefnu y telerau ar ba rai y caniatant hwy eu tiroedd. Y mae ganddynt tua miliwn a haner o erwau, ond eu bod yn cynwys cryn lawer o greigiau a mynyddoedd.

Mae y tir perthynol i Lywodraeth Canada yn dechreu yn agos i lan y môr, yn rhedeg trwy New Westminster, ac ar hyd ddyffryn Fraser i Lytton ; yna rhed ar hyd ddyffryn yr Afon Thompson, heibio Kamloops a thrwy Eagle Pass, ar draws parth gogleddol ardal Kootenay hyd derfyn dwyreiniol British Columbia. Mae y wlad wedi ei rhanu yn dref-gorddau yr un modd â Manitoba a'r Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol. Gellir cael y chwarteri yn awr yn ol 10s. yr erw, ond fod y pris hwn yn agored i gael ei newid thrwy orchymyn y Cyngor. Gellir codi cartrefi arnynt gan rai yn bwriadu byw arnynt. Rhaid talu dwy bunt am y cofrestriad wrth wneud cais am danynt. Caniateir chwe mis i gymeryd meddiant, ac ar ddiwedd tair blynedd, wedi profi preswyliad a thriniad. caiff y sefydlydd freint-lythyrau ar daliad doler yr erw am y tir. Os dewisa, gall y sefydlydd ddal ei dir am y ddwy flynedd gyntaf trwy ddiwyllio o wyth i bymtheg erw—wyth os bydd y tir yn goediog, pymtheg os na bydd. Yn ystod y tair blynedd dilynol i hyny, rhaid iddo drigo ar y tir yn gystal a'i drin. Gellir hefyd gael rhoddion o 160 erw, yn ol doler yr erw, er tyfu ffrwythau. Os digwydd afiechyd, neu os bydd angenrheidrwydd yn cadw y sefydlydd o'r lle yn ystod y tair blynedd, rhoddir estyniad amser iddo gyd-ymffurfio a thelerau y Llywodraeth. Mae yr amodau hyn yn gymhwysiadol at diroedd amaethyddol. Tir-oruchwyliwr y Llywodraeth am British Columbia ydyw Mr. H. B. W. Aikman, New Westminster.

Yn ychwanegol at y rhad-roddion o diroedd yn Manitoba a'r Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol, y mae gan amryw gwmnïau ddarnau mawrion o dir y rhai a gynygir ganddynt am brisiau rhesymol, sef o 2 ddoler a haner i 10 doler yr erw. Yn mhlith ereill, y mae gan y Canadian Pacific Railway Company (Tir-oruchwyliwr yr hwn yw Mr. L. A. Hamilton, Winnipeg) tua phedair miliwn ar ddeg o erwau ; a'r Hudson Bay Company (Tir-oruchwyliwr, Mr. Lawson, Winnipeg) lain helaeth Gellir dyweyd yr un peth am y Canada North-West Land Company (Tir-oruchwyliwr, Mr. W. B. Scarth, M.P., Winnipeg), a'r Manitoba and North-Western Railway Company (Tir-oruchwyliwr, Mr. A. F. Eden, Winnipeg) ; ac y mae amryw gwmnïau ereill. Mae gan yr Alberta Coal and Railway Company rai miliwnau o erwau yn ardal Alberta. Mae prisiau y tiroedd hyn yn amrywio yn ol eu safle, ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn isel ac wedi eu trefnu yn daliadau blynyddol yn cyrhaedd dros amryw flynyddoedd.

Gellir cael yn yr holl ran-barthau ffermydd diwylliedig am brisiau rhesymol—hyny yw, ffermydd gydag adeiladau arnynt a lle y mae rhan o'r tir wedi ei drin. A ganlyn yw y canol-brisiau yn y gwahanol ran-barthau—prisiau wedi eu trefnu yn ol safleoedd y ffermydd, natur a helaethrwydd yr adeiladau, a'u pellder oddiwrth drefydd a rheilffyrdd :—Prince Edward Island, o 4p. i 7p. yr erw ; Nova Scotia, New Brunswick, a Quebec, o 2b. i 10p. ; Ontario, o 2b. i 20p. ; Manitoba a'r Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol, o 1b. i 10p. ; a British Columbia, o 2b. i 15p. Mae y ffermydd hyn yn myned yn wâg oherwydd y rhesymau a nodir yn yr Adroddiad yn nghyd a rhai o'r Adroddiadau ereill. Y maent yn dra chyfaddas i ffermwyr

o foddion y rhai a ddewisant ardaloedd lle y ceir mwy o fanteision cymdeithasol nag sydd i'w cael yn y rhanau hyny o'r wlad lle y mae tiroedd y Llywodraeth yn cael eu trefnu i sefydlwyr.

Y mae Canada eisoes wedi cyrhaedd safle bwysig fel gwlad amaethyddol, ac y mae gwerth ei chynyrchion allforedig yn cyrhaedd yn agos i 40 miliwn o ddoleri yn y flwyddyn, yn ychwanegol at y swm anferth a dreulir gartref. Fel y canlyn yr oedd y prif gynyrchion amaethyddol a allforiwyd yn 1889—sef yn ol yr adroddiod diweddaf sydd ar gael:—Da corniog, 5,708,126 doler; ceffylau, 2,170,722 doler; defaid, 1,263,125 doler; ymenyn, 331,958 doler; caws, 8,915,684 doler; wyau, 1,851,503 doler; blawd, 646,068 doler; ffrwythydd, 1,604,203 doler; haidd, 6,464,589 doler; pys, 1,449,417 doler; gwenith, 471,121 doler; tatws, 287,763 doler. Nid oedd 1889 ar lawer cyfrif yn flwyddyn ffafriol, a phe cymerid blynyddoedd ereill fe geid fod yr allforion—yn enwedig defnyddiau ymborth—yn llawer mwy na'r rhai uchod. Heblaw y nwyddau a enwyd, gwneir masnach allforawl helaeth mewn cig moch, beef, lard, mutton, pork, dofednod, a chigoedd ereill, yn ogystal a ffâ, Indian corn, ceirch, brâg, blawd ceirch, tomatoes, a bran. I Brydain Fawr a'r Unol Daleithiau ar hyn o bryd yr anfonir y rhan fwaf o gynyrchion Canada, ond y mae ymdrechion llwyddianus yn cael eu gwneud i helaethu y fasnach â'r fam-wlad, ac i agor marchnadoedd newydd mewn parthau ereill o'r byd. Y mae cynyrchion y pysgodfeydd, y mwnweithydd, a'r coedwigoedd hefyd yn cael eu hallforio ar raddfa ëang; ac mae y llaw-weithfeydd yn fawrion a chynyddol, yn enwedig yn y taleithiau dwyreiniol, lle y gwneir bron bob nwydd y gellir ei enwi.

Mae trefn arian a phwys a mesur Canada fel y canlyn:—Mae y doler, yr hon sydd yn werth tua 4s. 2c., yn cynwys 100 cent, cyfartal i ddimau yr un. Dyma yr arian mewn cylchrediad:—Copr, 1 cent; arian, 5 cent, 10 cent, 25 cent, a 50 cent. Y mae arian papyr hefyd mewn arferiad helaeth, a gellir ei newid pan y mynir am ei gyflawn werth. A ganlyn yw pwysau bwsiel o'r gwahanol gynyrchion:—Gwenith, 60 pwys; Indian corn, 56 pwys; rhyg, 56 pwys; pys, 60 pwys; haidd, 48 pwys; brâg, 36 pwys; ceirch, 34 pwys; ffâ, 60 pwys; tatws a thyfolion ereill, 60 pwys. Yn ol y gyfraith, y mae cant yn 100 pwys a thunell yn 2,000 o bwysi.

Nid yw yn angenrheidiol estyn allan y rhag-draith hwn, ond gadael i'r Adroddiad sydd yn canlyn lefaru drosto ei hun. Y mae hwn, fel yr Adroddiadau ereill, yn ymwneud â Chanada fel y gwelwyd hi gan amaethwyr ymarferol, ac yn cyfeirio nid yn unig at ei manteision, ond hefyd ei hanfanteision, canys nid oes un wlad heb y rhai hyn mewn rhyw ffurf neu gilydd. Ond gellir yn ddiogel ddyweyd fod i Canada lai o ddiffygion na lliaws o ranau ereill o'r byd; a dygir tystiolaeth i hyn yn Adroddiadau yr holl ddirprwywyr. Fe wêl y rhai a ddarllenasant Adroddiadau y ffermwyr a ymwelasant a'r wlad yn 1879 a 1880 fod cynydd dirfawr wedi cymeryd lle er y pryd hyny, pan nad oedd rheilffordd yn rhedeg ond ychydig bellder i'r dwyrain o Winnipeg ac felly nad oedd y cysylltiad â Chanada ddwyreiniol yn gyflawn. Dymuniad Llywodraeth Canada, wrth wahodd y ddirprwyaeth, oedd rhoddi i'r cyhoedd hysbysrwydd cywir ac annibynol am y rhagolygon sydd yn y

wlad i rai yn bwriadu dilyn yr alwedigaeth amaethyddol, a chredir y gwerthfawrogir hyn yn llawn cymaint ag a wnaed ddeng mlynedd yn ol. Mae y tir llafur yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon yn brin, a'r boblogaeth yn fawr a chynyddol; tra nad yw poblogaeth Canada ond tua 5 miliwn, a thra y mae ynddi gannoedd o filiwnau o aceri o'r tir ffrwythlonaf yn y byd yn aros am drigolion i godi arno bob math o gynyrchion hinsawdd dymherus er lles dynolryw. Ni raid yn mhellach ond dyweyd y caiff y dosbarthiadau hyny a welant Canada mor fanteisiol iddynt, ac a benderfynant ymgartrefu yno, dderbyniad cynnes mewn unrhyw ran o'r wlad, ac y teimlant ar unwaith nad dieithriaid fyddant mewn gwlad ddieithr, ond rhai wedi dyfod i blith eu cyd-ddeiliaid Prydeinig, gyda'r un iaith, arferion a theyrngarwch ag a welsant yn yr hen wlad.



Golygfa ar Goedwig yn Stanley Park, Vancouver.

# ADRODDIAD.


Wrth gyflwyno fy adroddiad am Canada fel maes i ymfudwyr, yr wyf yn teimlo fod pwysigrwydd mwy na'r cyffredin ynglyn a'r gwaith. Ar un llaw, os bydd i mi orliwio manteision y wlad gall llawer un dibrofiad ddisgwyl yno wynfyd digymysg, yr hwn yn fynych a siomir pa le bynag yr ymfuda. Ar y llaw arall, os bydd i mi fethu mewn unrhyw fodd i ddarlunio ei hadnoddau dihysbydd, gallaf ddylanwadu ar y gohirwr i foddloni ar ei dynghed yn y wlad yma, a diweddu ei oes mewn tylodi ac efallai drosglwyddo yr un etifeddiaeth i genedloedd o'i ddisgynyddion. Ymdrechaf pa fodd bynag i roddi cyfrif cywir o'm goruchwyliaeth, a chyfyngu fy sylwadau yn unig i ffeithiau a ffugyrau, ac yn fwyaf arbenig at fy nghydwladwyr, ag anghenion pa rai yr ydwyf yn berffaith hysbys, a gobeithiaf yn hollol gydymdeimlo a'u huchelgais.

Cychwynais o Lerpwl ar yr wythfed-ar-hugain o Awst diweddaf, ynghyd a chwech o ddirprwywyr ereill o wahanol barthau o Loegr, Scotland, a'r Iwerddon ; ac ar ol mordaith dawel oddigerth un diwrnod hynod ystormus ar ganol Mor-y-Werydd, a dau eraill llai cynhyrfus yn y Gulf St Lawrence, nofiasom mewn perffaith dawelwch rhwng glanau prydferth yr Afon St. Lawrence, a chyrhaeddasom Quebec ddydd Sul y 7fed o Fedi. I rai ar fedr ymfudo, mae'n ddiamheu y byddai desgrifiad byr o'r fordaith yn ddyddorol. Nid wyf yn amheu nad ofn y cefnfor sydd wedi cadw llawer amaethwr diwyd ar ei dyddyn mynyddig yn Nghymru yn lle ceisio ei gysur a'i lwyddiant ar diroedd breision Canada. Pe buasai wedi anturio flynyddoedd yn ol, cawsai fod y fordaith yn bleserus, ac hefyd efallai yn fuddiol i'w gyfansoddiad; ac erbyn hyn buasai yn berchen 320 erw—"hanner section"—neu ragor o dir, a'i blant mewn sefyllfaoedd cysurus ac yn perchen digon i'w cynal mewn esmwythder yn eu henaint, yr hyn nis gallant obeithio ei gyrhaedd ond anaml yn yr hen wlad.

Ond ni raid i'r rhai sydd heb gychwyn ddigaloni; mae yn Canada ddigon o le i filiwnau o ddewrion lafurwyr ac amaethwyr Cymru i sefydlu cartrefi cysurus, gyda theimlad o ryddid amhrisiadwy i feddwl anibynol.

Pe buasai croesi y Werydd yn cymeryd tri mis o amser fel y bu gyd ag un a ymfudodd o Ysgotland haner canrif yn ol—pa un a adroddodd wrthyf ei hanes gyda gradd o falchder—buasai gan y Cymro ryw esgusawd dros oedi. Erbyn hyn nid yw y fordaith o naw diwrnod ddim mwy na rhyw bleserdaith a gymérir gan ganoedd o rai mewn moddion i adferu eu hiechyd neu i fwynhau eu hunain. Gan fod swyddogion y palasdai nofiadwy sydd yn cludo y teithwyr yn talu sylw mor fanwl i'w holl gysuron, ni raid i'r gwanaf ofni y fordaith; mae y gludiaeth hefyd mor isel fel y gall y gweithiwr tylotaf ei gyrhaedd, a gall gael tocyn trwodd o Lerpwl i Winnipeg, neu ymhellach os bydd yn dewis; gall hefyd logi gwely am bris rhesymol gan y cwmni os na bydd yn dewis cymeryd ei wely ei hun. Parotoir y prydau bwyd yn gyson ar oriau penodedig dair gwaith y dydd, a rhoddir bara a chaws neu *biscuit* i'r rhai fydd yn dewis cyn myned i orphwys. Mae y bwyd yr hyn a ellir ei fwynhau ac wedi ei baratoi yn lanwaith a blasus.

Clywais lawer yn dweyd y buasent wedi ymfudo er's llawer dydd ond am y plant. Ofnent na busasai y rhai bach yn cyrhaedd drosodd yn fyw, ond gallaf ddwyn tystiolaeth na raid i'r rhai sydd yn perchen teulu bryderu am eiliad. Yr oedd ar fwrdd y "Circassian" tua deugain o blant, yn amrywio mewn oed o dri mis i bymtheng mlwydd, i ba rai y telais sylw manwl bob dydd o'r fordaith, ac ni welais ond dau o'r rhai hynaf ddim gwaeth er clefyd y mor. Chwareuai y rhai lleiaf a mwynhaent eu hunain fel pe buasent ar eu haelwyd gartref. A phan gyrhaeddo y penteulu ei gartref newydd cenfydd y rhai hynaf o werth nid bychan yn amser prysur "hau a medi." Gan fod ar y rhan fwyaf o offerynau Americanaidd le i'r gyrwr eistedd, mae plant lled ieuaingc yn gallu llenwi lle dyn am yr amseroedd prysur hyn; nid yn aml y gwelir hwy yn gwneud trymwaith, ond gwelais un bychan pybyr tua deg oed yn llwytho gwenith a'i dad yn codi yr ysgubau a dywedai fod y bychan wedi llwytho pedwar ugain erw o wenith a cheirch. Ceidwad-helwriaeth (*game keeper*) yn Lloegr ydoedd yr amaethwr yma bum mlynedd yn ol. Mae yn awr yn perchen wyth ugain erw o dir a thy ac adeiladau cyfleus arno a dim ond ychydig ddyleri i'w talu na bydd yn eiddo iddo ei hun, a'i fab hynaf mewn cyffelyb sefyllfa tua phum millder oddiwrtho.



*Sulky Plough* NEU ARADR AR BA UN YR EISTEDDA'R GYRWR.


Mae yn fy nyddiadur fwy o sylwadau ac enwau personau a lleoedd nag a ellir eu cynhwys mewn adroddiad byr i fod er budd i ymfudwyr, a gobeithiaf na theimla neb o'r canoedd a fuont mor garedig i'r dirprwywyr unrhyw siomedigaeth na buasai yn fy adroddiad gyfeiriad personol atynt am eu caredigrwydd, yn enwedig y rhai anfonasant eu cerbydau am ganoedd o

filldiroedd i'n cludo ar draws y "Prairies"; ac nid oes genyf ond gobeithio y derbyniant un ac oll fy niolchgarwch gwresocaf, ac y gwelant fod hyn yn rheswm digonol dros fy ymddygiad.

Yr wyf yn ofni nad ydyw adnoddau Canada na helaethrwydd ei thiroedd breision yn ddigon adnabyddus yng Nghymru, gan mai ychydig o Gymry mewn cymhariaeth a gyfarfyddais yn fy nhaith drwy y wlad. A rhaid i mi addef er fy mod yn lled gydnabyddus â daearyddiaeth America na feddyliais fod yn Canada y filfed ran o'r tir amaethyddol gwerthfawr a gynhwysa. Mae Canada yn fwy o lawer na'r Unol Daleithiau, ond mae poblogaeth y Taleithiau yn bum miliwn a thriugain pan nad yw poblogaeth Canada ond pum miliwn. Mwy na thebyg mai Gwerinlywodraeth y flaenaf sydd wedi bod yn ad-dyniad i'r Cymry a'r Gwyddelod yn ystod yr haner canrif diweddaf. Mae tueddiadau politicaidd Cymru mor adnabyddus fel na raid i ni ofni gwneud cydmhariaeth rhwng y ddwy wlad yn yr ystyr yna. Er mai gweinyddiaeth doriadd sydd mewn awdurdod yno yn bresenol, nid wyf yn meddwl y byddai y Cymro mwyaf radicalaidd yn anfoddlawn i'w trefniadau, o dan arweiniad Syr John McDonald.

Mwynheir yr un breintiau gwleidyddol ag yn yr Unol Daleithiau; mae'r ffordd yn rhydd i'r amaethwr yn gystal a'r masnachwr ddringo i'r Senedd a thelir iddo gan y Llywodraeth o £200 i £300 y tymhor yn ol yr amser a aberthir ganddo i wasanaethu ei wlad. Trwy hyn sicrheir i amaethyddiaeth ei safle briodol yn Nghyngorfa y genedl ac hefyd i'r amaethwr gyfreithiau cyfiawn a theg, a sefyllfa nad oes iddo obaith ei chyrhaedd yn y wlad hon hyd oni afonir amaethwyr profededig i'w gynyrchioli i'r senedd ac y telir iddynt am eu gwasanaeth. Mae ymhob talaeth yn Canada weinidog amaethyddol yr hwn a gydweithreda a'r Anrh. John Carling, gan ba un y mae sedd yn y cyfringynghor (*cabinet*), yn y senedd gynghreiriol yn Ottawa, y brifddinas. Gan fod amaethwyr profiadol yn cael eu hanfon i'r Seneddau Taleithiol, neu *County Councils*, maent yn cael eu parotoi i wasanaeth pwysicach yn y Brif Senedd; a chyfarfyddais a mwy nag un ffermwr ydoedd yn aelod o'r ddwy, ac yr un mor fedrus hefo'r aradr neu ei beiriant medi ag ydoedd hefo gwaith y Senedd. Pa nifer o ddynion cyffelyb a ellir eu cyfrif ymhlith 670 o'n haelodau Seneddol ym Mhrydain? Dim un! a dim ond wyth yn proffesu gwybod dim am amaethyddiaeth o gwbl, a chredaf fod y ddau a anfonir gan Gymru yn gwybod mwy na'r chwech eraill am anghen yr amaethwr. Yng ngwyneb y ffeithiau hyn mae rhagolygon Prydain yn lled dywyll hyd y nod yn ei hymdrech yn erbyn ein Trefedigaethau ein hunain, megys Canada, India, ac Australia. Mae yr ymgais a wnaed yn 1875 ac 1883 i gael bill tir a allai fod o ryw werth i'r amaethwr yn profi tuhwnt i bob dadl fod anghen mwy o'r elfen amaethyddol yn ein Senedd. Mae y beichiau gormesol a osodwyd ar ysgwyddau y ffermwyr, yr ymwthio aniwall sydd wedi bod am dir y naill a'r llall yn eu plith eu hunain, ac adgasrwydd y creaduriaid annynol a osodir i gasglu'r ardrethi gan y meistri tir, yn sicr o wneud eu gwaith yn fuan iawn. Gwel yr oes sydd yn codi nad yw ond oferedd iddynt ymdrechu yn erbyn cymaint o anhawsderau, gwelant nad cadw eu plant mewn llafur caled i frashau haid o segurwyr, i foddio mympwyon ynfyd tirfeddianwyr, i gael eu hysbeilio gan wleidyddwyr, a chrefyddwyr gonest yr

eglwys wladol yw eu dyledswydd, ond symud yn deuluoedd cyfain i wledydd lle y gallant fyw ar ffrwythau goreu y ddaiar a rhoddi digon o'r neilldu i'w cadw yn gysurus yn niwedd eu hoes. Nid y rhai a enwyd yn unig yw manteision ymfudwyr i Canada. Ceir yno addysg rad yn mhob parth o'r wlad. Lle na bydd ond deg neu ddeuddeg o blant ymfudwyr mewn sefydliad, o oedran ysgol, trefnir lle cyfleus iddynt gan y llywodraeth a thelir y costau.



Y Fferm Brawfiadol yn Ottawa, a'r Coleg Amaethyddol y cyfeirir atto.

Mae Colegau amaethyddol yn cael eu sefydlu yn mhob talaeth, lle caiff meibion amaethwyr bob mantais i ddiwyllio eu meddyliau mewn pob cangen o addysg ag sydd yn angenrheidiol iddynt i fod yn llwyddianus yn eu galwedigaethau. Nid rhyw greadur dwl na all wneud dim arall ydyw amaethwr y dyfodol i fod yn Canada, ond dyn yn perchen gwybodaeth o bob cangen o gelfyddyd y mae arno angen am dani. Astudir y rhai hyn gan efrydwyr yn Guelph Ontario o dan broffeswyr ac athrawon profiadol,—Dadansoddiad a Fferylliaeth Amaethyddol, Daeareg, Llysieuaeth, Melodiaeth Goruchioneg (neu arwyddion yr awyrgylch), Garddwriaeth, Diffyniaeth a Meddyginiaeth Anifeiliaid, pa fodd i drin ac i farnu ceffylau, pa fodd i drin llaeth, ymenyn, a chaws, mesur tir, rhifyddiaeth, cadw cyfrifon, ymarferiad corphorol, ac hefyd bob math o waith fferm. Am yr olaf telir i'r efrydwyr yn ol yr hyn a gyflawnant, fel y gall y rhai a fynant weithio dderbyn yn ol yr hyn a dalant am eu haddysg a'u bwrdd, sef £30 y tymhor. Mae yn y Coleg hwn neuadd eang, a lle manteisiol i'r efrydwyr eistedd i wrandaw ar y proffeswyr yn darlithio, ac yn desgrifio yr anifail a fydd yn destun y ddarlith; dygir ef i mewn o flaen y

proffeswr, yr hwn a ddengys wahanol bwyntiau yr anifail, ei ragoriaethau a'i ffaeleddau; pwysir yr anifeiliaid ag sydd yn cael eu pesgi yn fynych, er rhoddi mantais i'r gwyr ieuaingc wybod eu gwerth a chydmharu eu cynydd. Dangosir iddynt pa fodd i dyfu pob math o goed a llysiau, pob math o rawn a gwreiddiau ymborth dyn ac anifail; yn fyr paratoir hwy mewn yspaid o ddwy flynedd neu lai i gychwyn eu gyrfa amaethyddol gyda phob tebygolrwydd o lwyddiant, a pha le bynag y digwyddant ymsefydlu bydd eu hesamplau yn hyrwyddiant i'r cymydogion i'w hefelychu.


Fel hyn gwelir ar unwaith fod ein brodyr yn Canada yn edrych ymlaen, ac yn ymegnio i roddi addysg gelfyddydol i'w hieuengctyd yn ngwyneb anhawsderau o'u cydmharu â manteision y Fam Wlad, a ddylai wrido ein Llywodraeth, a'i hyrwyddo i ddilyn eu hesiampl. Hyd yn hyn mae y Coleg wedi bod yn agored i fechgyn o bob parth o'r byd, ond gorfodir y Llywodraethwyr oherwydd nad oes digon o le, i gyfyngu eu dewisiad i ddynion ieuaingc Canada. Gan fod rhagor na chwe chant o erwau yn gysylltiedig a'r Coleg, a phob rhan o'r gwaith o dan arolygiaeth y dynion mwyaf ymarferol a ellir eu cael, mae manteision yr efrydwyr yn ddau-ddyblyg. Nid dweyd mewn geiriau ond dangos mewn gweithred; er engraifft, gwelais gnwd o *Indian corn* yn cael ei dori yn las i fod yn ymborth gauaf i'r anifeiliaid, yr ydoedd y gwellt yn un-droeddfedd-ar-ddeg o hyd a phwysai y cnwd ddwy dunell-ar-hugain yr erw. Mae ar y fferm amryw fathau o anifeiliaid fel pe byddent ar brawf er mwyn cael allan pa fath o wartheg, defaid, a moch a fyddant fwyaf proffidiol i amaethwyr y Gogledd-Orllewin.

Nid ydynt etto wedi rhoddi prawf ar wartheg na defaid Cymreig, ond yr wyf yn tybio y bydd iddynt gael ychydig ohonynt cyn bo hir, ac yn fy marn i gallant ddal y prawf a dyfod allan yn fuddugoliaethus. Mae y ffermydd prawfiadol yn Ottawa, Brandon, Indian Head ac Agassiz yn cael eu cario ymlaen yn yr un dull ag y cerir y brif fferm yn Guelph, ond eu bod flynyddoedd yn iau.

Pan mae yr hen ddaiar yn gloedig yn ystod misoedd y gauaf, rhoddir cyfle neillduol i amaethwyr Canada i ddiwyllio eu meddyliau ac i ymbarotoi i wynebu yr ymrysonfa ag sydd ar gynydd rhyngddynt hwy a'r Unol Daleithiau. I genedl ieuangc mewn cydmhariaeth ymddengys ar yr olwg gyntaf fod y Llywodraeth yn ei beichio yn ormodol, a byddai yn ddigon naturiol i unrhyw un ar fedr ymfudo ymofyn o ba le y mae yr arian yn dyfod. Rhaid i mi addef fy mod ar y cyntaf yn lled amheus, ond wrth hir ymholi cefais hyd i'r dirgelwch. Nid oes yn Canada dylodion i ofalu am danynt, dim segur-daliadau parhaus (*perpetual pensions*) dim swyddi diwerth i'w llenwi â phendefigion swrth a difethgar, yr un Aglwydd Ganghellydd yn derbyn deng mil o bunau yn y flwyddyn am eistedd ar "sached o wlan," yr un Cyfreithiwr y Goron, Erlynydd y Goron, na Barnwr Dadleuol Cyffredin, yn derbyn pymtheng mil o bunau rhyngddynt yn flynyddol. Y swyddi hyn a llawer eraill rhy luosog i'w henwi sydd yn faich ar Brydain, nes llethu ei thrigolion. Nid yn unig yn yr hyn a arbedir yn y ffordd yma, y ceir yr holl ddirgelwch, ond yn y cyflogau a delir i swyddogion y Llywodraeth. Derbynia y Prif Weinidog £1,640 yn y flwyddyn, y Gweinidogion Amaethyddol ac Aelodau y Cyfringynghor £1,400 yr un a'u costau teithiol; fel y dywedwyd o'r blaen, telir i bob Aelod Seneddol ynghyd a'u costau yn teithio yn ol a

blaen i Ottawa. Mae yr un rheol yn cael ei chario allan trwy holl ganghenau y gwasanaeth gwladol, derbynia pob swyddog gyflog rhesymol, yr hyn a'i galluoga i fyw yn gysurus ac i roddi o'r neilldu ddigon i ddiweddu ei oes mewn annibyniaeth. Gan nad oes yno flwydd-daliadau (*pensions*) fel yn y wlad yma, ni welir dynion ieuangc yn rhoddi eu swyddi i fynu ac am y gweddill o'u hoes yn faich ar y wlad.

Er cymaint ydyw gofal y Llywodraeth fod arian y wlad yn cael eu gwario yn fuddiol, mae yn berffaith anrhydeddus, ac yn talu i bawb a fydd o'r gwasanaeth lleiaf i'r wladwriaeth. Derbynia hyd y nod y rheithiwr dal am ei amser, a thelir ei gostau. Mae y cyfan yn cael eu cario ymlaen fel peiriant cywrain, a chymaint a ofynir i'r amaethwr ydyw o chwech i naw ceiniog yr erw bob blwyddyn. Saesoneg yw iaith y wlad tu allan i Dalaeth Quebec; Ffrancaeg sydd yno fwyaf, ac yma yn unig y clywir son am ddegwm. Caniata y Llywodraeth i'r Offeiriaid Pabyddol i gasglu degwm oddiar eu deiliaid eglwysig, ond nid yw yn gorfodi y sawl a wrthoda. Felly er fod y dreth yn dwyn yr enw adgas yma nid yw ond rhodd wirfoddol.



GOLYGFA AR AMAETHDY YN ONTARIO.

Hyd yn hyn mae trigolion cyntefig y wlad (yr Indiaid Cochion fel eu gelwir oherwydd eu bod yn paentio eu crwyn) yn diangc heb unrhyw dreth ond eu bod hefyd heb freintiau dinesydd. Ymddygir tuag atynt yn Canada gyda mwy o dynerwch a gofal am eu cysur nag yn yr Unol Daleithiau, ond er y cyfan mae eu nifer yn lleihau. Mae eu tueddiadau a'u dull o fyw yn byrhau eu hoes. a mwy na thebyg na bydd ond ychydig ohonynt i'w cael cyn diwedd y ganrif nesaf. Maent hefyd o'r braidd yn ddieithriad yn hoff o

wirodydd meddwol, a chan na roddir un amser lawer o werth ar fywyd ganddynt, mae dyfod i gyffyrddiad â hwy dan ddylanwad y gwirod yn lled beryglus. Ond gan fod y gyfraith yn gwahardd i neb werthu diodydd meddwol iddynt, cospir y sawl a geir yn euog yn llymdost, fel mai lled anaml y gwelir un ohonynt yn feddw, ac ar y cyfan nid oes mwy o berygl eu cyfarfod na dynion eraill.

Mewn perthynas i'r fasnach yn y diodydd meddwol, mabwysiadir y *local option* mewn rhai parthau o bob un o'r Taleithiau, ac ymwelwyd â rhai manau gan y ddirprwyaeth lle nad oedd gwirodydd i'w cael ond mewn tai annedd, neu yn masnachdy y fferyllydd, yr hwn nas gall ei werthu i neb os na bydd ganddo drwydded gan feddyg.

Yn Toronto a dinasoedd mawr eraill mae y tafarndai ynghauad o 7 nos Sadwrn hyd 7 boreu Llun. Ni welir ar y Sabboth ond ychydig gerbydau o unrhyw fath ar eu heolydd, ac yn fy holl daith drwy Canada ni welais ond un meddwyn ar y Sul, a dim ond tri neu bedwar yn y ddau fis y bum yn y wlad. Mae yno ryddid crefyddol trylwyr, pob enwad yn sefyll ar ei deilyngdod ei hun. Mewn rhai parthau mae Eglwys Rhufain ar y blaen, mewn eraill y Presbyteriaid neu fel y gelwir hwy yn Canada "Methodistiaid" —cyfundrefn yn cael ei gwneud i fynu o amryw enwadau o anghydffurfwyr —mewn rhanau eraill gwelir yr hen Fam Eglwys yn blodeuo er na roddir unrhyw gynorthwy iddi gan y Llywodraeth, a chlywais fwy nag un eglwyswr yn dweyd fod gan ei gweinidogion fwy o sel, yni, a dylanwad, na phe buasai mewn cysylltiad a'r wladwriaeth.

Ynglyn a llawer o ddychymygion disail eraill a daenir er iselhau Canada, rhoddir cryn lawer o gred, yr wyf yn ofni, i'r hyn a ddywedir am y tywydd: tybia llawer yn y wlad yma fod oerni y gauaf yn annioddefol, os nad hefyd boethder yr haf. Nis gallaf trwy brofiad ddweyd pa mor oer ydyw yn y ddau fis oeraf, sef Ionawr a Chwefror, na pha mor boeth ydyw yn y ddau boethaf, Gorphenaf ac Awst, ond tystia pob un o'r rhai yr ymofynais â hwynt am yr hinsawdd, fod yr awyrgylch mor sych, digymylau, a digyfnewid fel na theimlir yr oerni mor finiog ag yn y wlad yma ar rai adegau, er fod yr Hinraddeg (*Thermometer*) yn rhestru tuag ugain o raddau yn oerach. Yr un modd y rhaid i mi ddweud am y gwres, nid oes genyf ond tystiolaeth y trigolion am yr adeg boethaf; dywedant y teimla'r ymfudwr fwy oddiwrth wres y diwrnodiau poethaf am dymhor neu ddau nag oddiwrth oerni y rhai oeraf. Mae dwy ran o dair o'r flwyddyn yn lled debyg i'n tymhorau ni ond yn fwy sych yn y gwanwyn a diwedd y flwyddyn. Dechreua y gauaf yn gyffredin tua chanol Rhagfyr, a diwedda o ganol Mawrth i ddechreu Ebrill, pan mae yr amaethwr yn prysuro i roddi yr hadyd yn y ddaear. Parotoir y rhan fwyaf o'r tir i dderbyn yr had ddiwedd y flwyddyn, fel na bydd dim i'w wneud ond hau, y gwenith yn gyntaf, y ceirch a'r haidd yn olaf. Gorphenir y gwaith hau gan y rhai mwyaf blaenllaw tua diwedd Mai, ond gwelais un maes o wenith wedi ei hau ddiwedd Mehefin, ac yn cael ei gludo ddiwedd Medi, y grawn yn loew ac yn galed, a dyfalwyd y cnwd i "ildio" o ddeg i ddeuddeg bushell ar hugain yr erw. Er mwyn rhoddi darluniad byr o'r holl Dalaethau, dechreuaf gyda'r hynaf o'r rhai yr ymwelais â hwy, sef Ontario. Quebec

ydyw y Dalaeth henaf, ond ni chefais ond cipdrem arni o'r gerbydres, felly nis gallaf roddi barn am ei hadnoddau; ond tybiaf oddiwrth yr hyn a ganfyddais y byddai'n well gan Gymro fyned ymhellach i'r Gorllewin.



Amaethdy yn Ontario.

Mae y rhan fwyaf o Ontario yn lled debyg i diroedd goreu Prydain, er nad mor ddestlus yr olwg yn eu gwrychoedd a'u ffyrdd. Uniawnir yr hen derfynau (*snake fence*) yn y rhanau lle y mae yr amaethwyr goreu a hoelir yr hen gledrau (*rails*) ar byst derw neu gedrwydd, ac edrychant mor newydd a phe baent ond wedi eu hollti flwyddyn yn ol, pan maent wedi sefyll y tywydd er's deugain mlynedd neu ragor; a gellir meddwl wrth yr olwg arnynt y daliant ddeugain mlynedd yn hwy. Mae yn y Dalaeth hon lawer o dyddynod prydferth ar werth, tai ac adeiladau allan arnynt, mewn cywair da a digon ohonynt. Coed ydyw y rhan fwyaf o'r adailedau allan a llawer o'r tai, ond ceir mewn rhai ardaloedd dai ceryg neu briddfeini wedi eu hadeiladu yn y ffordd oreu. Mae prisiau y ffermydd yn amrywio o £9 i £15 yr erw yn ol cyflwr y tir a'i sefyllfa, a chyfleusderau y farchnad a gorsaf y rheilffordd. Rhoddir amryw resymau gan y rhai sydd yn gwerthu eu tiroedd—rhai yn myned yn hen a'u teulu wedi eu gadael, eraill wedi casglu digon i fyw yn anibynol, eraill yn ymfudo i'r Gogledd-Orllewin am fod ganddynt deuluoedd mawr ac eisieu mwy o le, a llawer mae'n ddiamheu yn gorfod symud am na wyddant ddigon am amaethyddiaeth i adferu y tir pan mae wedi blino yn rhoddi heb dderbyn. Mae yn y Dalaeth yma le i amaethwyr mwyaf medrus Cymru, y rhai sydd ag arian ganddynt i wneud lawer gwell nag y gallant yn y wlad hon, gan fod £100 yn Canada mewn dwylaw medrus yn werth mwy na £300 yma.

Teimla yr amaethwr hefyd ei fod yn llafurio iddo i hun heb na meistr tir na pherson i'w cadw mewn segurdod. Gellir cael meddiant o'r tir drwy dalu un ran o dair o'r pryniad a thalu o 5½ i 7 y cant o log am y gweddill. Mae yn hawdd cael ffermydd da am, o 12/- i 18/- yr erw o rent; a chan fod yr oll o'r trethi o dan swllt yr erw ar y tir goreu, nid yw y rhent ond cyfartal i'r trethi a'r degwm yn y wlad yma, a cheir prisiau cyffelyb am holl gynnyrch y tir oddigerth da corniog, pa rai a gyrhaeddant tua haner prisiau presenol Cymru Felly hyd yn nod lle mae'r tir ddrutaf yn Canada, nid oes gan amaethwyr Cymru unrhyw obaith i gystadlu a hwy.

Mae mewn rhai parthau yn y Dalaeth hon berlleni a gwinllanoedd ffrwythlawn. Ar hyd glanau yr afon Niagara am lawer o filldiroedd, ni welir dim ond perllenau llawnion o bob math o ffrwythydd yn eu hadeg, ac erwau lawer o winwydd, a'r grawnwin yn tyfu yn sypiau breision yn yr awyr agored, ac yn llawn mor beraidd eu blas a'r rhai a dyfant yng ngwinwydd-dai (*hothouses*) y wlad yma.

Dywedwyd wrthyf gan un amaethwr yn agos i Grimsby, ar lan Llyn Ontario ei fod wedi tyfu eleni chwe tunell yr erw ac wedi cael am danynt o 2c. i 5c. y pwys. Mae y tyddynod yma yn fwy fel Gerddi Marchnad (*Market Gardens*) ein gwlad ni, a gwna y Garddwr fywoliaeth gysurus ar ddeng erw o dir. Anfonir canoedd o dunelli o afalau, gerllyg, eirin, a ffrwythydd eraill o'r ardal yma bob blwyddyn i Lerpwl, ac oddiyno, mae'n debyg, i ucheldiroedd Cymru.

Gallaf ddyweyd am yr ardaloedd amaethyddol yn Ontario yr un peth ag a ddywedwn am lawer ardal yn Mhrydain,—y cynydda eu cynyrch i'r un graddau ag y cynydda gwybodaeth amaethyddol. Yr unig wahaniaeth ydyw fod y manteision a geir yn y Dalaeth i gyrhaedd y wybodaeth yn fwy o lawer; ac os nad wyf yn camsynied am y dyfodol, y mae i Gymru yn ei sefyllfa bresenol gystadlu hyd y nod â hen Dalaeth Ontario allan o'r cwestiwn.

Os felly, beth am y Gogledd-Orllewin lle mae canoedd o filoedd o ecri a dyfant wenith am o ddeg i ugain mlynedd heb wrtaith na "gorphwys"?

Nid wyf yn meddwl fod yn Canada neb a wyr beth ydyw eangder ei thiroedd, ac mae yn amhosibl dyfalu beth fydd ei chynyrch hyd y nod yn y deng mlynedd nesaf. Manitoba ydyw y Dalaeth fwyaf poblogaidd yn y Gogledd-Orllewin, ac os dewisa yr ymfudwr gael cysuron cartref Cymreig ar unwaith, cynghorwn ef i fyned i Winnipeg, prif ddinas y Dalaeth, yn cynhwys wyth-mil-ar-hugain o drigolion. Mae yn yr ardal oddiamgylch diroedd ffrwythlawn ac amryw ffermydd ar werth neu ar osod, a gellir eu prynu am o £2 10s. i £4 yr erw, a thai cysurus, ac adeiladau cyfleus i'r anifeiliaid arnynt.

Os dewisa yr ymfudwr, gall rentu un o'r ffermydd hyn am, o 8/- i 16/- yr erw, neu gallai gael fferm a'r offerynau amaethyddol a'r da byw arni, drwy roddi hanner y cynyrch i'r perchenog. Gwelais amryw yn gwneud bywoliaeth gysurus ac yn gwella eu hamgylchiadau yn y ffordd yma, wedi dechreu heb un geiniog ar ol talu eu cludiad.


Neu os bydd unrhyw un yn dewis ymwadu am ychydig flynyddau â'r cysuron a pha rai mae wedi ymarfer hyd yma, gall ddewis wyth ugain erw o ddeg i haner can milldir oddiwrth reilffordd, a thalu ond dwy bunt i'r Llywodraeth am danynt.

Mae Cwmni Rheilffordd Manitoba a'r Gogledd-Orllewin, y rhai sydd yn gweithio caingc-linell drwy dir amaethyddol da, yn cynnyg telerau manteisiol i ymfudwyr a ymsefydlant yn gyfagos i'w llinell hwy. Nid wyf yn meddwl fod yn Canada le mwy manteisiol i weithwyr o Gymru a'u teuluoedd i ymfudo. Adeiledir tai yn costio o £15 i £25 fel bydd yr ymsefydlydd yn dewis. Rhoddir iddo hefyd wedd o ychain, gwartheg-llaeth, hadyd, offerynau amaethyddol, dodrefn mwyaf anghenrheidiol, a darperir bwyd a dillad ar gyfer y teulu hyd oni werthir peth o gynyrch y tir. Os bydd anghen, rhoddant echwyn o £40 i bob teulu i ddwyn y draul o ymfudo, ac ni ofynir iddynt dalu llog am ddwy flynedd a hanner ar ol ymsefydlu, ond ychwanegir at gorph yr arian yr hyn fydd ddyledus am yr amser. Ar yr olwg gyntaf, mae llog o wyth y cant yn ymddangos yn uchel, ond mantais yr echwynydd ydyw cael y nwyddau am arian parod, a chaniata y Cwmni bymtheng mlynedd o amser i'w talu os bydd anghen, ond i ddyn ymdrechgar bydd pum mlynedd yn ddigon, gan fod y Cwmni yn foddlawn i dderbyn unrhyw gyfran er lleihau y corph a'r llog. Er sicrhau yr arian cymer y Cwmni wystl ar y tir neu nodyn dan law yr echwynydd (*note of hand*) ar eu traul eu hunain. Mae y tir ar bob ochr i'r llinell am 120 milldir i Saltcoats wedi ei feddianu, ond gan fod y llinell i gael ei chario ymlaen ragor na 120 eraill, mae gan y Cwmni ddigon o le i ymfudwyr am rai blynyddoedd. Bum yn ymddiddan ag amryw sydd wedi cartrefu yn y gymydogaeth, a phawb yn canmol eu lle oddigerth un wraig a ddaeth yma gyda ei gwr o Ogledd-barth Ysgotland. Yr oedd yn y wlad er's dros flwyddyn, ac heb gynefino, mae'n debyg.


Mae yr olwg ar y da byw a welir yn porfâu ar hyd y *Prairies*, yn profi fod y borfa yn faethlon, ac ni phrofais erioed well caws ac ymenyn na'r rhai a wnaed mewn un o'r gweithfeydd yn y gymydogaeth. Anfona yr amaethwyr eu llaeth i'r gweithdy, a chânt gyfartaledd o gaws neu ymenyn yn ol. Mae pob tebygolrwydd y cymerir rhan bwysig gan y gweithfeydd hyn yn amaethyddiaeth Canada, gan na ddefnyddir ynddynt ond yr offerynau goreu; mae y caws a'r ymenyn bob amser yn dda, ac yr un flas. Tyfir yma hefyd wenith, haidd, a cheirch, cystal a dim a geir ar diroedd goreu Cymru. Hyd yn hyn nid oes llawer o haidd yn cael ei allforio i'r wlad yma, ond y tebygolrwydd yw y bydd ymhen ychydig flynyddoedd y cynyrch mwyaf toreithiog yn holl Dalaethau y Gogledd-Orllewin, a bydd yn naturiol i ni ddysgwyl gostyngiad yn ei bris yn y wlad yma. Gellir dyweyd yr un peth pan ddechreua allforio gwartheg ystôr. Felly nid ydyw rhagolygon yr amaethwyr Cymreig mor addawol ag y myn ambell un i ni gredu.

Mae cymydogaethau Prince Albert 250 o filldiroedd i'r Gogledd o Regina, Glenboro' 120 milldir i'r Deheu o Winnipeg, Carman, Wawaanisa a Rapid City, yn agos yr un cyfeiriad, â pha rai yr ymwelodd y Dirprwywyr, yn debyg yr un natur a Saltcoats, ac yn dir o'r fath oreu i dyfu yd ac anifeiliaid. Mae ymhob un ohonynt ddigon o ddwfr. Lle mae'r afonydd yn rhy bell, gellir trwy gloddio ffynon o bump i ddeg llath gael digonedd o ddwfr peraidd haf a gauaf.

Mae mewn rhai o'r ardaloedd a enwais ambell ddeadell o ddefaid. Y rhywogaeth sydd yn ateb oreu i'r amaethwyr ydyw croes rhwng y *Merino* (defaid Yspaen) a'r *Cheviot* o Brydain; tybiaf yr attebai defaid Cymreig yn well na'r rhai hyn pe rhoddid prawf arnynt. Ceir tua 5 pwys o



Winnipeg (Manitoba) yn 1871.—Poblogaeth 100.



WINNIPEG YN 1890.—POBLOGAETH 28,000.

wlan yr un, a gwerthir ef heb ei olchi; y pris eleni ydoedd chwech a dimeu y pwys. Gwerthwyd yr wyn am o 14s. i 18s., ac ambell un o'r goreuon am 25s. yr un.



AREDIG YN AMAETHDY MR. SANDISON, BRANDON.



Y CYNHAUAF YN Y FFERM UCHOD.

Mae cymydogaethau Brandon, Portage-la-Prairie, Plum Creek, Nepawa, ac Indian Head, yn debyg o ran natur eu tiroedd i ardal Winnipeg, ac yn

cael eu gwerthu am, o £2 i £4 yr erw, os bydd adeiladau arnynt; ac o £1 i £2 lle nad oes.

Mae ymhob un o'r trefydd hyn adeiladau cyfleus a elwir *Grain Elevators* yn y gorsafoedd, lle y cluda yr amaethwyr eu hyd mewn codau yn dal 60 pwys. Mae y rhai hyn yn perthyn i fasnachwyr neu felinyddion, a chedwir dynion ynddynt i ddosbarthu a phrisio yr yd. Rhanant y gwenith yn bedwar sampl, a rhoddir y cyfan drwy y peiriant i dynu ohono bob amhuredd, a throsglwydda y peiriant yr yd glan i gronfâu, o ba rai yr arllwysir yr yd yn rhydd i wageni y rheilffordd pan fydd galw an dano.

Sylwais wrth gerdded ar hyd soflydd yn yr ardaloedd hyn fod y tir yn ildio fel eira dan y troed; ac wrth edrych ar eu hofferynau amaethyddol cefais allan yr achos, ni welais ond dwy "Rowl" (rholfaen). Yr oedd y gyntaf a welais, mae'n debyg, o waith cartref, yn rhy hir ac ysgafn i ddim ond llyfnhau y wyneb. Yr ydoedd yr ail yn offeryn haiarn trwm ac wedi bod mewn gwaith ddau dymhor, a dywedai y perchenog wrthyf ei fod yn cael gwell grawn, gwell cnwd, ac yn aeddfedu yn gynharach, lle yr ydoedd wedi defnyddio y rholfaen. Mae effaith rhew ar diroedd breision o'r fath yma yn gofyn sylw yr amaethwr; os bydd y tir yn llac, try y planhigyn ieuangc yn felynwyn, a pheru felly nes cyrhaedda y gwraidd fwy o sylwedd yn y tir sydd heb ei gynhyrfu. Fy marn i ydyw y talai yr offerynau yma yn dda i ffermwyr Manitoba, pe y defnyddid hwy ddwy neu dair gwaith ar hyd yr un tir, gan fod gwenith, ffa, a hadau cyffelyb yn gofyn lle sylweddol i'w gwraidd.

Nid yw amaethwyr Canada yn cymeryd llawer o drafferth i lafurio eu tir. Pan yn aredig y "prairie" y tro cyntaf cymerant gwys tua phymtheg modfedd o led a 2 o ddyfn, ac wedi gadael iddo fraenu o Fehefin hyd fis Medi, troir y cwysi yn ol yn bedair modfedd o ddyfn, a gadewir i rew y gauaf ei barotoi i'r had. Ar ol y tro cyntaf, nid ydynt yn aredig ond unwaith a chymerant gnydau o wenith am o ddeg i ugain mlynedd yn olynol.

Mae mewn rhai ardaloedd gwyno oherwydd nosweithiau rhewllyd yn yr haf; dygwydda y rhai hyn tua chanol Awst, a niweidir ychydig ar y gwenith mwyaf diweddar.

Derbynia yr yd niwed hefyd ambell dymhor gan gawodydd o genllysg; ond ni ddygwydda hyn ond anaml ac nid yn gyffredin drwy y wlad, ond mewn parthau. Ni welais yn fy nheithiau drwy y wlad ond un maes o wenith tua deg-ar-hugain o erwau wedi cael niwed gan genllysg.

Wedi gadael Brandon teithiodd y Dirprwywyr yn gyflym heibio i 22 o drefi ac ardaloedd lled boblogaidd, megis Moosomin, Qu-Appelle a Wolseley, nes cyrhaeddyd Regina prif ddinas Talaeth Assiniboia yn cynhwys 2,200 a drigolion ac yn cynyddu yn gyflym. Yma y cartrefa Arlywydd y Dalaeth a'r aelod seneddol, hefyd tua mil o heddgeidwaid a'u ceffylau (*Mounted Police*). Aethym oddi yma i Prince Albert, y sefydliad mwyaf Gogleddol yn Canada, 248 o filldiroedd o Regina. Gellir casglu oddiwrth y ffaith fod y ceffylau yn porfau allan drwy y gauaf nad ydyw hinsawdd y wlad mor oer ag y desgrifir hi gan rai. Er meithder y daith ni chanfyddais ar un ochr i'r llinell ond ychydig o drigfanau. Mae llwybrau y buffalo i'w canfod o'r gerbydres ac yn dwyn ar gof yr amser pan yr oedd miloedd ohonynt yn ymwibio ar hyd y Prairies heb neb i'w haflonyddu; ni welir

yn awr ond tyrau o'u hesgyrn wedi eu cludo a'u tyru yn ugeiniau o dunelli ar ochr y ffordd haiarn yn barod i'r masnachwr. Ar ol troi yn ol i Regina, y daith nesaf oedd 1,086 o filldiroedd drwy dir yd a phorfa ffrwythlawn i Calgary, y dref fwyaf bywiog o Brandon i'r Mynydoedd creigiog, ei phoblogaeth yn 3,400.



DYRNU AR FFERM MR. SANDISON YN AGOS I BRANDON.

(Oddiar ba un y gwerthwyd y cynhauaf diweddaf werth dros £5000 o wenith.)

Mae sefyllfa y dref yn hynod brydferth mewn dyffryn cysgodol ar lan afon Bow, mae ynddi adeiladau ceryg a phriddfaeni cedyrn, gwestai cysurus, a masnachdai cyfleus. Mae rhwng y ddwy dref yma 38 o orsafoedd ond ni chefais gyfle i weled ond un o'r trefi hyn (Medicine Hat) ymha un yr oedd arddanghosfa amaethyddol i fod dranoeth. Ceir ar y gwastadir maith yma amryw *Ranches* a diadelloedd o wartheg a heidiau hefyd o geffylau yn cael eu gwarchod ar y Prairie gan y *Cowboys;* mae yma hefyd ddeg o ffermydd yn perthyn i Gwmni Amaethyddol Canada yn cynhwys deng mil o erwau yr un. Mae'n ddiamheu fod y *Ranches* yn talu i'r perchenogion ar y cyfan, ond nid cymaint o'u cydmharu a ffermydd llai lle mae y da o dan ofal personol y perchenog. Lle mae diadelloedd mawr o wartheg, ceir colledion weithiau yn y gauaf ac ambell haf hefyd oherwydd prinder dwfr mewn rhai manau. Pe byddai yn bosibl defnyddio y miloedd tunelli o wellt a losgir ar diroedd breision Manitoba yn ymborth ac yn gysgod i'r creaduriaid hyn drwy fisoedd y gauaf, credaf y cai y *Rancher* a'r ffermwr fudd, y naill drwy achub bywydau ei anifeiliaid a'r llall drwy gael gwneud ei welltydd yn wrtaith a'i ystorio hyd oni bydd y tir mewn angen am dano. Mae gwahanol farn ymhlith amaethwyr am ddefnyddioldeb tail. Dywedwyd wrthyf gan un ag oedd yn cadw tua chant o anifeiliaid ei fod ef yn gwrteithio ei dir ar ol cael tri chnwd o wenith ohono, a'i fod yn cael mwy o yd ac yn aeddfedu

yn gynharach. Dywedai y llall nad oedd yn cadw ond ceffylau gwedd yn unig—fod tail yn gwenwyno y tir. Y mae y ddau yn byw o fewn ychydig filldiroedd i'w gilydd, a fy marn i ydyw y dylai yr olaf ofyn pa fodd y teimla trigolion hen Dalaethau Quebec ac Ontario ar y pwngc.


Nid oes ond 80 milldir rhwng Calgary a'r Mynyddoedd Creigiog, pa rai a ymestynant i'r Gogledd a'r Deheu gan belled ag y gwel y llygaid, ac fel y nesha y gerbydres attynt, maent fel pe yn ymledu ac yn dyrchafu nes mae cerbydau mawrion "Pullman" yn ymddangos yn eu hymyl fel cynifer o deganau plant; ond er eu bychandra ymddangosiadol, mae y teithwyr yn cael eu hunain cyn pen ychydig oriau wedi cyrhaedd yn ddiogel i orsaf Banff, yn agos i ba un y ceir y ffrydiau poethion, brwmstanaedd, y rhai sydd yn berwi allan o'r mynydd lawer o raddau yn rhy boeth i'r cleifion a dyrant yma am adferiad iechyd i fyned iddynt.




Darlun o Amaethdy yn y Gogledd-Orllewin.

(A dynwyd gan y Milwriad Fane, Aelod o'r Ddirprwyaeth).

Ar ol gadael yr orsaf yma, mae y gerbydres megys yn cribo hyd lethrau y creigiau serth, ac yn dolenu yn ol a blaen nes cyrhaedd gorsaf Stephen, yr uwchaf yn y Mynyddoedd Creigiog, 5,296 o droedfeddi yn uwch na'r mor, ac yn uwch o 1,600 o droedfeddi mewn 61 o filldiroedd. Fel pe wedi gorchfygu yr anhawsderau, ceir yma seibiant am ychydig i gael lluniaeth, ac hefyd i gael cip-olwg ar natur wedi ei gwisgo ag addurniadau na welir mohonynt ond unwaith efallai mewn oes. Ar bob ochr i'r llinell dyrchafa rhai o'r clogwyni ddeng mil o droedfeddi i awyrgylch y rhew a'r eira oesol; gorchuddir eu llethrau a Chedrwydd a Phinwydd (*Cedars and Pine*) nes yr ymddengys fel gwisg wyrddlas o amgylch eu godrau, islaw y penguwch



VANCOUVER.



TAI Y SENEDD YN OTTAWA.

prydferth nad ellir ei wneud yn wynach. Fel pe yn coroni yr olygfa, rhuthra y dyfroedd trochioniog drwy agenau culion y creigiau nes mae'r edrychydd yn colli ei hun mewn myfyrdod; ond yn mysg golygfeydd mor ardderchog, mae yn amhosibl peidio edmygu cywreinrwydd y peirianwaith a ddaeth a'r fath gyfleusderau i gyrhaedd dynolryw. Mae y rheilffordd yma fel pe yn ymwthio rhwng y creigiau am tua 400 o filldiroedd, trwy y Selkirk, Hermit, a'r mynyddoedd aur yn British Columbia, heblaw y Mynyddoedd Creigiog.



FFERM DDIWYLLEDIG—NOVA SCOTIA.

Mae mynyddoedd British Columbia yn lled debyg i fynyddoedd Cymru, ond mae y dyffrynoedd sydd yn eu gwahanu yn llawer mwy ffrwythlawn. Tyfa cedrwydd a choedydd ereill i faintioli anferth o 200 i 300 o droedfeddi o uchder, ac heb ond ychydig geingciau meinion o fewn ychydig latheni i'r top, a llawer ohonynt o 6 i 7 troedfedd o drwch, ac yn berffaith ddifreg drwyddynt. Teimlwn yn ofidus wrth weled coed mor werthfawr a'r rhai hyn yn cael eu hollti yn danwydd. Mesurais foncyff yn agos i dref Vancouver ag sydd wedi sefyll ystormydd tua 2000 o flynyddoedd; mae oddeutu 60 troedfedd o uchder, ac yn 19 o drwch. Tybiaf nad oes eisieu tystiolaeth arall i brofi ffrwythlonder tir British Columbia. Mae'n debyg fod yr adran hon o Canada wedi derbyn yr enw hwn am fod ei hinsawdd mor debyg i'r hyn ydyw yn yr Ynysoedd Prydeinig. Gwlad ydyw hon lle gallai Prydeinwr deimlo gartref ar unwaith; ond gan fod dyffrynoedd digoed yn brinion o'u cydmharu a'r coedwigoedd, ni ellir prynu tir yno am lai o bris na thir y wlad yma; un fantais yw fod y cynnyrch yn gymaint arall, a'r llall nad oes unrhyw ofyn arno ond tua swllt yr erw. Tyfir ffrwythydd o bob math i berffeithrwydd, ac ydoedd a phob math o wreddiau am flynyddoedd yn olynol heb unrhyw fath o wrtaith.

Mae yn British Columbia, Ynys Vancouver, a llawer o barthau eraill yn

Canada fwnau glo, plwm, haiarn, copr, arian ac aur. Cloddir glo yn agos i Nanaimo, 70 filldir i'r Gogledd o Victoria, prif ddinas y Dalaeth, yn cynhwys 15,000 o drigolion o ba rai mae 2,500 yn frodorion o China, gwasanaeth pa rai sydd werthfawr lle mae gweinidogion mor brinion. I enethod ieuangc tybiaf mai dyma y lle mwyaf manteisiol yn Canada; derbynia genethod ar eu cychwyniad o'r ysgol 12p., eu bwrdd a'u golchi, ac o hyn i fynu i 60p. i gogyddes. Cant eu parchu fel aelod o'r teulu a gelwir am wasanaeth un o'r Chineaid i wneud unrhyw drymwaith, ac anfonir y golchi "allan" gan bob teulu. Derbynia crefftwyr da gyflogau o 7s. i 8s. y dydd, mwnwyr o 8s. i 12s. y *shift* o 8 awr, garddwyr o 30s i 50s. yr wythnos. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y tair tref Victoria, Vancouver, a New Westminster; mae y ddwy flaenaf yr un boblogaeth, a'r olaf yn ei dilyn yn gyflym. Mae Porthladd Vancouver yn debyg o gynyddu, pan sefydlir llinell o Agerlongau i redeg ar draws y Tawelfor i Australia, India a New Zealand. Mae dyfodol New Westminster hefyd yn addawol drwy fod rheilfordd wedi ei chwblhau o'r Unol Dalaethau i orsaf newydd ar lan yr Afon Frazer, ar ei chyfer lle mae tref newydd i gael ei sefydlu ac i'w galw yn Liverpool.



Golygfa ar Fferm yn Manitoba.

Mae'n debyg nad oes yn y byd fwy o eogiaid nag sydd yn yr Afon Frazer, a gwneir pob yndrech gan y Llywodraeth i gadw y cyflenwad drwy fagu y pysg mewn tai pwrpasol, a'u gollwng i'r afon pan tua dau fis oed. Magwyd mewn un o'r *Hatcheries* yma, 7 miliwn o *salmon* y tymhor diweddaf, a chludwyd hwy mewn llestri pwrpasol ugeiniau o filldiroedd tua tharddiad yr afon. Mae amryw weithfeydd ar lan orllewinol yr afon lle mae y pysgod yn cael

eu parotoi a'u dodi mewn tyniau *preserve* i'w hallforio. Parotowyd yn un o'r gweithdai hyn agos i filiwn o bwysi y tymhor diweddaf. Mae ar lan yr afon hefyd amryw felinau llifio lle y parotoir coed adeiladu i'w hanfon bron i bob parth o'r byd. Defnyddir yr afon i gludo y coed sydd yn tyfu ar ei glanau am ganoedd o filldiroedd a'u cario hyd at ddanedd y llif.




AMAETHDY YN MANITOBA.
(A dynwyd gan y Milwriad Fane, Aelod o'r Ddirprwyaeth).

Mae yma fel ymhob parth arall o Canada le i rai ag arian ganddynt i wneyd mwy o elw iddynt ei hunain nag yn y wlad yma. Fy marn i ydyw nad oes un dosbarth ag sydd ganddynt foddion neu yni nad allent wella eu hamgylchiadau drwy ymfudo i unrhyw ran o Canada. Ni ddylwn derfynu fy adroddiad heb roddi desgrifiad byr o'u dull yn cario yn mlaen arddangosfa amaethydol. Cynhelid prif arddangosfa Canada yn Toronto (Chicago Canada), tref fywiog ar lan Llyn Ontario, yn cynhwys 175,000 o drigolion. Parha'r arddangosfa am 10 ddiwrnod, a chymerir mwy o ddyddordeb yn y trefniadau gan y trefwyr ymhob parth o Canada nag a wneir yn gyffredin yn y wlad yma; talwyd y gwobrau a'r holl gostau mewn cysylltiad a'r arddangosfa fawr yma o'r derbyniadau am fynediad i mewn, a chan fod yma adeiladau cyfleus i'r holl nwyddau, cynhelir y *Show* yn Toronto bob blwyddyn.

Yr ydoedd eu hofferynau amaethyddol yn llawn cystal a dim a ddangosir yn y wlad yma; gallaf ddweyd yr un peth am eu hanifeiliaid—y ceffylau, gwartheg, moch, defaid, dofednod—a phob math o gynnyrch y ddaear, yn enwedig yr haidd. Gwelais ddwy arddangosfa eraill yn Birtle ac yn Calgary. Yr oedd pob peth a ddangoswyd yn y rhai hyn o'r bron cystal ag yn Toronto, ond yn llai o nifer.

Dymunwn cyn terfynu alw sylw fy nghydwladwyr, y rhai sydd yn edrych ymlaen am well prisiau am wartheg ystor, at ffeithiau a ddylent gael eu sylw. Allforiwyd o Canada i'r wlad yma yn ystod y chwe mis y mae yr Afon St. Lawrence yn rhydd, yn 1890, 120,654 o benau, neu ddwbl y nifer a allforiwyd yn 1888. Mae pob tebygolrwydd hefyd yr anfonir cyflenwad o haidd bragu i'r wlad yma cyn pen ychydig flynyddoedd. Nid wyf ychwaith yn gweled rheswm gan y rhai a ddywedant y bydd Canada yn fuan mor boblog fel y bydd anghen am ei chynnch i borthi y trigolion. Bydd y cynnydd a wneir mewn gwybodaeth amaethyddol gyda'r manteision sydd ganddynt yn Canada, yn ddigon cyflym i gyfarfod a'r galwad cartrefol, fel y bydd yr hyn a gynnyrchir trwy lafur yr ymfudwyr yn rhydd i'w allforio; ac os gellir tynu casgliad oddiwrth lafur un brodor, o Iceland, a ymfudodd chwe blynedd yn ol, yr hwn eleni heb gynorthwy ond un llangc a fydd yn alluog i werthu 1,800 o fusheli o wenith, nis gall neb ddirnad beth fydd ei chynyrch hyd y nod yn y pum mlynedd nesaf.

Gan fy mod wedi cael mantais am ragor na chwarter canrif wrth brisio tiroedd a'u cynnych yng Nghymru, yr wyf yn tybio y gallaf yn ddibetrus feiddio cynnyg fy marn ar yr hyn sydd o bwys i'm cydwladwyr yn eu cyfyngder presenol, ac hefyd a all fod o bwys i drigolion Canada. Ymdrechais i roddi yr olwg waethaf ar gynnychu gwenith yn Canada drwy gymeryd cyfartaledd y pedair blynedd diweddaf am na chaed gwaeth un ohonynt yn y deuddeng mlynedd blaenorol. Ar y llaw arall gwelir fy mod yn gosod cynnyrch y wlad yma ar ei eithaf hyd yn nod ar y tir goreu. Credaf pe cymerid cyfartaledd manwl o bob ardal lle tyfir gwenith, nad yw yn fwy na deng hobed yr erw.



TEISI GWENITH YN MANITOBA.

Y draul i dyfu Gwenith yn MANITOBA, cynnyrch yr Erw, a'r Pris.

| Y Flwyddyn. | Busheli i'r Erw. | Gwerth Bushel o 60 pwys. | | |
|---|---|---|---|---|
| 1887 | 25 | 76 cents = | 3 | 0½ |
| 1888 | 23 | 78 " = | 3 | 1½ |
| 1889 | 15 | 90 " = | 3 | 7½ |
| 1890 | 29 | 84 " = | 3 | 4½ |
| | — | — | | |
| Cyfartaledd | 23 | 82 | 3 | 3½ |
| | — | — | | |

P3 15 8½ yr erw.

| | P | s. | c. |
|---|---|---|---|
| Llôg yn ol saith-a-haner y cant ar y pryniad = £3 yr erw ... ... ... ... ... | | 4 | 6 |
| Aredig, had, a hau ... ... | | 15 | 6 |
| Cost cynhauaf dyrnu, a chludiad ... ... ... | | 16 | 4 |
| Cadwriaeth gweddi, ychain, neu geffylau y gauaf ... | | 1 | 6 |
| Trethi ... ... ... ... | | 0 | 8 |
| | P1 | 18 | 6 |
| Proffid i'r erw ... ... | 1 | 17 | 2½ |
| | 3 | 15 | 8½ |

Cyffelyb i'r uchod yng NGHYMRU :—

Cynnyrch mewn chwarter a'r pris.

| | Chwr. | Bush. | P | s. | c. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1887 | 4 | 6 | 1 | 12 | 6 |
| 1888 | 4 | 0 | 1 | 11 | 10 |
| 1889 | 4 | 3 | 1 | 9 | 9 |
| 1890 | 3 | 7 | 1 | 11 | 0 |
| Cyfartaledd | 4 | 2 | 1 | 11 | 3½ |
| Gwerth cynnyrch yr erw | | | 6 | 12 | 11 |

| | P | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd rhent tir gwenith yr erw ... ... ... | 1 | 12 | 0 |
| Degwm ... ... ... ... ... | 0 | 6 | 8 |
| Trethi ... ... .. ... | 0 | 4 | 6 |
| Gwrtaith, cario a gwasgaru | 3 | 0 | 0 |
| Aredig, "hadyd" a hau ... | 1 | 5 | 0 |
| Cynhafa, dyrnu, a chludo i'r orsaf ... ... ... | 0 | 18 | 0 |
| | 7 | 6 | 2 |
| Cymerer allan werth y gwellt, a'r gwrtaith a adewir yn y tir ... ... | 1 | 0 | 0 |
| | 6 | 6 | 2 |
| Proffid i'r erw ... ... ... | 0 | 6 | 9 |
| | 6 | 12 | 11 |

Pe rhoddid llog ar yr arian a ddefnyddir gan yr amaethwr i lafurio y tir yn ol 5 y cant, ni byddai dim yn weddill.

Cydmhariaeth mewn treuliadau cyffredin :—

Dilladau a ellir eu prynu yma am 3p. a gostiant 4p. yn Canada.
Esgidiau " " 16s. " 12s. "
Rhent ty " " 4p. 10s. " 8p. "
Chweg-nwyddau (*groceries*), tua'r un brisiau.
Glo, un-ran o dair yn uwch yn Canada.

Cigau, ymenyn, caws, dofednod (*poultry*), un-rhan-o-bedair yn rhatach yn Canada.

Caled-nwyddau (*ironmongery*) at wasanaeth ty, ugain y cant yn uwch yn Canada.

Offerynau amaethyddol a cherbydau, ugain y cant yn is yn Canada.

Fe allai, wrth ymdrechu cadw'r adroddiad heb fyned yr rhy faith fy mod wedi gadael allan rai manylion a allasent fod yn fuddiol i ymfudwyr, ac yr wyf yn teimlo na byddaf yn gwneud mwy na fy nyledswydd wrth atteb unrhyw gwestiwn o fewn fy ngallu a ofynir gan rai ar fedr ymfudo.

Os cymer yr amaethwr olwg ddiragfarn ac ystyriol ar y sefyllfa, yr wyf yn credu y darbwyllir ef, nad oes fawr o goel ar yr hyn a ddywedir gan rai, y bydd llai o gystadlu yn ei erbyn fel y cynydda poblogaeth ein trefedigaethau. Ni fynwn ddweyd gair i ddigaloni neb, ond mae genyf bob sail i farnu yn hollol i'r gwrthwyneb; i'r un graddau ag y cynydda y trigolion amaethyddol, y cynydda eu gallu i allforio; a chan fod yn Canada yn unig le i bedwar-ugain miliwn ychwaneg, gwelir mor ddisail yw'r haeriadau hyn. Wrth derfynu nid wyf yn teimlo unrhyw betrusder i annog y diwyd o ba genedl bynag, i ymfudo i Canada, yn enwedig y rhai hyny o'm cydwladwyr sydd yn llafurio'n galed ar dyddynod bychain drudion, ac yn cadw eu meibion a'u merched megys caethion i'r rhai sydd yn gwario eu henillion mewn balchder ac oferedd yn nhrefydd mawr Lloegr.

W. EDWARDS.

Rhuthyn,
*Ionawr* 1*af*, 1891.

This pamphlet sent
free upon application to
J. DYKE, Canadian Government
Agent, Liverpool.